

# Rhwydwaith Sentinel Cymru Wales Sentinel Network

Rhifyn/Edition 1  
Mai /May 2022



Mewn Partneriaeth â  
Llywodraeth Cymru  
In Partnership with  
Welsh Government



Animal &  
Plant Health  
Agency  
Asiantaeth  
Iechyd Anifeiliaid  
a Phlanhigion

## Helo bawb!

Mae'n bleser mawr gen i anfon cylchlythyr chwarterol cyntaf Rhwydwaith Sentinel Cymru atoch chi.

Ein nod drwy'r cylchlythyr hwn yw:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am faterion iechyd planhigion ledled Cymru a'r DU
- Pwysleisio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i wella bioddiogelwch a chadernid eich safleoedd
- Rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau all fod o ddiddordeb i staff neu wirfoddolwyr
- Hyrwyddo perthynas weithio a rhannu gwybodaeth rhwng y safleoedd

Nod y cylchlythyr hwn yw cefnogi'r 22 o safleoedd Sentinel ledled Cymru sydd wedi cofrestru ar gyfer Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Cymru, ond mae croeso ichi rannu'r cylchlythyr ag eraill sydd â diddordeb ynddo. Byddem yn croesawu cyfraniadau i gylchlythyrau yn y dyfodol. Cysylltwch â [Daniel.Wood001@gov.wales](mailto:Daniel.Wood001@gov.wales) am ragor o wybodaeth.

Yr wythnos hon yw Wythnos Iechyd Planhigion 2022, sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o ddiogelu iechyd planhigion, sydd yn ei dro yn diogelu'r manteision y mae planhigion yn eu darparu i ni, yr amgylchedd a'r economi. Mae amrywiaeth o weithgareddau parhaus wedi cael eu cynllunio ar gyfer Wythnos Iechyd Planhigion – mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol, ar gael yn [Plant Health Action |](#).

## Rhwydwaith Safleoedd Sentinel

Efallai mai ddarllen y cylchlythyr hwn yw'r tro cyntaf i ddarllenwyr ddod ar draws Rhwydwaith Safleoedd Sentinel. Grŵp o barciau a gerddi ledled Cymru yw'r rhwydwaith. Mae pob parc wedi'i leoli yn un o'r 22 o Awdurdodau Lleol ac mae Arolygwyr Iechyd Planhigion a Hadau APHA yn ymweld â phob safle ddwywaith y flwyddyn.

Nod y rhwydwaith yw gweithredu fel system rhybuddio cynnar ar gyfer plâu a chlefydau planhigion, yn ogystal â chynnig cyfleoedd i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a digwyddiadau hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr a staff. APHA sy'n cynnal gweithrediadau iechyd planhigion a Llywodraeth Cymru sy'n cydlynu'r prosiect.



# Rhybudd Iechyd Planhigion

## *Phytophthora pluvialis*

Pathogen ffyngaidd yw *Phytophthora pluvialis*, sy'n effeithio ar amrywiaeth o goed gan gynnwys hemlog y Gorllewin, derw dwysflodeuog, pinwydd (*Pinus radiata*, *Pinus patula* a *Pinus strobus*) a ffynidwydd Douglas. Daethpwyd o hyd iddo'n wreiddiol yn Oregon, UDA yn 2013 ar dderw dwysflodeuog a ffynidwydd Douglas. Yn dilyn hyn, cafodd ei nodi fel y pathogen a oedd yn gyfrifol am y 'clefyd nodwyddau coch' ('red needle cast') a welir ar binwydd *radiata* yn Seland Newydd.

## Symptomau

Nodir bod *Phytophthora pluvialis* yn achosi clefyd nodwyddau (needle cast) – lle mae nodwyddau'n troi'n frown ac yn disgyn oddi ar y goeden – yn ogystal â blagur yn gwywo a briwiau ar y coesyn, y canghennau a'r gwreiddiau.



Enghraifft o friwiau *Phytophthora pluvialis* ar goesyn coeden.

Mae Forest Research wedi paratoi [canllaw symptomau](#) i roi rhagor o wybodaeth am *Phytophthora pluvialis* gan ddangos coed symptomatig.

Cafodd *Phytophthora pluvialis* ei ganfod ar goetir yng Nghernyw ym mis Medi 2021, lle gwelwyd ei fod yn effeithio ar hemlog y Gorllewin aeddfed a ffynidwydd Douglas. Yn dilyn arolygon helaeth, mae achosion wedi cael eu canfod ar 15 safle yng Ngwynedd, Sir Gaerfyrddin, Powys, Casnewydd, Sir Fynwy, a Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â Chernyw, Dyfnaint, Cumbria, Surrey a'r Alban.

Yng Nghymru mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cynnal arolygon ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno pum ardal ddiffiniedig ledled Cymru o amgylch Crychan, Maesyfed, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a de-ddwyrain Cymru i atal y clefyd rhag lledaenu. Mae cyfyngiadau ar symud deunyddiau a all ledaenu *Phytophthora pluvialis* yn cynnwys cyfyngu ar gwmpo coed a symud deunyddiau sy'n agored i'r clefyd yn yr ardaloedd hyn.

## Adrodd am Achosion

Byddwch ar eich gwylidwriaeth am arwyddion o *Phytophthora pluvialis*. Os ydych yn credu eich bod wedi gweld arwyddion o'r clefyd unrhyw le ym Mhrydain Fawr, dywedwch wrthon ni gan ddefnyddio [TreeAlert](#).

# Crynodeb o Ddatblygiadau Rhwydwaith Safleoedd Sentinel 2021

Ym mis Chwefror 2021, cynhaliodd y Safleoedd Sentinel gyfarfod rhithwir. Yn ystod y cyfarfod hwn, croesawodd Cyn-weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig aelodau Safleoedd Sentinel, gan ddod â'r rhwydwaith ynghyd am y tro cyntaf.

Ers hynny, mae arolygiadau gan arolygwyr APHA wedi parhau i gael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys yn ystod pandemig COVID-19. Nid yw'r arolygiadau wedi dod o hyd i unrhyw beth anarferol hyd yn hyn, ond mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd ynghylch *Phytophthora ramorum* ar *Rhododendron*. Maen nhw hefyd wedi dod o hyd i *Phytophthora ramorum* ar letywyr anarferol mewn mannau eraill yng Nghymru, gan gynnwys *Paulownia* ac *Araucaria*. Maent hefyd wedi dod o hyd i *Dothistroma septosporum* (malltod nodwyddau bandiau coch).

Y bygythiadau allweddol ar hyn o bryd yw: Malltod Castanwydd Pêr, clefyd coed ynn, *Phytophthora ramorum* a *kernoviae* a Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y rhain drwy'r porth iechyd planhigion <https://planthealthportal.defra.gov.uk/>.

## Deunyddiau Hyrwyddo

Yn ddiweddar, mae deunyddiau hyrwyddo Safleoedd Sentinel wedi cael eu dosbarthu i safleoedd drwy'r rhwydwaith. Mae byrddau dehongli wedi cael eu gosod ar safleoedd ar bwys arwyddion a phosteri ar gyfer arddangosfeydd. Bydden ni'n ddiolchgar pe gallech chi anfon unrhyw ffotograffau o'r rhain i'w rhannu drwy'r rhwydwaith, ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn cylchlythyrau yn y dyfodol.

## Prosiectau Ychwanegol

### Rhwydwaith Planhigion Rhyngwladol Sentinel

Menter yw Rhwydwaith Planhigion Rhyngwladol Sentinel a grëwyd gyda ffocws ar gysylltu gerddi botaneg ac arboreta, Sefydliadau Diogelu Planhigion Cenedlaethol a gwyddonwyr iechyd planhigion â'i gilydd i roi system rhybuddio cynnar ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran plâu a phathogenau. Cadwraeth Gerddi Botaneg Rhyngwladol sy'n arwain y fenter, gyda chymorth diagnostig gan Fera Science Ltd. Drwy bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol mae'r rhwydwaith yn creu ac yn rhannu'r canlynol:

- Enghreifftiau o arferion gorau
- Gwaith monitro sydd wedi'i safoni ac arolygu methodolegau
- Deunyddiau hyfforddiant i gynyddu capasiti gerddi sy'n aelodau
- Mynediad at gymorth diagnostig
- Cronfeydd data i rannu a storio gwybodaeth rhwng partneriaid a Sefydliadau Diogelu Planhigion Cenedlaethol

## Tree Alert

Mae Tree Alert wedi cael ei ddatblygu i gasglu gwybodaeth am iechyd coed, coetiroedd a choedwigoedd ein gwlad. Bydd y wybodaeth a roddir yn cefnogi gwaith pwysig i fonitro a chofnodi iechyd coed, yn cyfrannu at ymchwil wyddonol barhaus yn y maes hwn ac, yn y pen draw, yn cefnogi ymdrechion i ddiogelu coed ein cenedl. Os ydych yn credu eich bod wedi gweld arwyddion o blâu neu glefydau coed, adroddwch am y rhain drwy [TreeAlert](#) fel y gellir archwilio achosion posibl.

## Mynd at Wraidd y Mater

*Helpwch ein bywyd gwyllt drwy atal planhigion goresgynnol rhag lledaenu!*



Mae'r planhigyn anghywir yn y lle anghywir yn gallu peri difrod i'r amgylchedd. Gall planhigion goresgynnol beri difrod i fywyd gwyllt brodorol ac effeithio ar yr economi a'r ffordd rydyn ni'n byw.

Pan fydd planhigion goresgynnol wedi ymsefydlu, mae eu rheoli yn ddud, ac efallai na fydd modd unioni'r difrod maen nhw wedi'i beri. Gall planhigion pyllau ac acwaria fod yn neilltuol o ddinistriol os ydyn nhw'n dianc i gorff dŵr naturiol.

Mynd at Wraidd y Mater drwy ddilyn tri awgrym syml:



Dewiswch y planhigion cywir ar gyfer eich gardd, eich pwll neu eich nodweddion dŵr.



Cadwch ein planhigion yn eich gardd – peidiwch â'u plannu, na chaniatáu iddyn nhw dyfu yn y gwyllt.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael gwared ar eich hen blanhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a phennau hadau mewn modd cyfrifol.

## Observatree

Rhwydwaith o wirfoddolwyr medrus iawn yn y DU yw [Observatree](#), sy'n cynnwys mwy na 200 o wyddonwyr dinasyddion. Maen nhw'n cynnal amrywiaeth o arolygon er mwyn helpu i ddod o hyd i blâu neu glefydau newydd coed a monitro lledaeniad rhai presennol.

Mae gwirfoddolwyr Observatree yn canolbwyntio ar 22 o blâu a chlefydau sy'n peri'r pryder mwyaf. Rydyn ni'n hyfforddi ein gwirfoddolwyr i allu nodi a rhoi gwybod am y bygythiadau hyn. Rydyn ni hefyd yn annog gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd coed, a phobl sy'n ymwneud yn weithredol â choed, i roi gwybod am unrhyw ganfyddiadau sy'n peri pryder. Po fwyaf o bobl sy'n cadw llygad, po gynharaf y bydd achosion yn cael eu canfod. Mae amrywiaeth eang o adnoddau a deunyddiau hyfforddiant ar gael am ddim er mwyn eich helpu i wella eich gwybodaeth am iechyd coed.

## Action Oak

Mae ein coed derw eiconig yn wynebu brwydr i oroesi yn erbyn plâu a chlefydau sydd â'r potensial i ddinistrio poblogaeth y dderwen.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw
- Dirywiad aciwt y dderwen
- Rhywogaethau ffwng mêl (honey fungus) sy'n ymosod ar wreiddiau
- Llwydni powdrog (Powdery mildews)

Bydd colli coed derw o'n tirwedd yn effeithio ar ein llesiant, ein heconomi, ein hamgylchedd a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt.

Mae gwaith ymchwil a monitro wedi dechrau ond mae'n rhaid inni wneud mwy er mwyn sicrhau ein bod yn diogelu ein coed derw mawreddog i genedlaethau'r dyfodol eu mwynhau.

Rydyn ni'n annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn coed derw fynd i wefan [Action Oak](#) i gael y newyddion, yr ymchwil a'r adnoddau diweddaraf.

## Tyfu Cymru



Mae [Tyfu Cymru](#) yn cynnig cymorth a hyfforddiant sy'n benodol i'r diwydiant er mwyn cynyddu capasiti a gallu sector garddwriaeth Cymru. Mae'n ymateb i anghenion ac yn darparu arweinyddiaeth er mwyn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i fusnesau dyfu mewn ffordd wyrdd a chynhwysol. Cyflawnir hyn drwy rannu gwybodaeth ac annog arferion gorau drwy [weithdai a digwyddiadau, cyngor arbenigol, rhaglenni hyfforddiant](#) act ati.



Mae Rhaglen Rhwydwaith Rheoli Plâu a Chlefydau Integredig [Tyfu Cymru](#) yn lleihau risgiau amgylcheddol drwy ddefnyddio adnoddau naturiol, ysglyfaethwyr a bioamddiffynwyr naturiol, a'r defnydd o agrocelegion sydd wedi'u targedu. Mae'r rhaglen yn cefnogi busnesau i gynyddu cynhyrchiant drwy leihau colledion a lleihau eu defnydd o agrocelegion. Drwy wneud hyn maen nhw'n diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth, ansawdd dŵr ac iechyd pridd.



## Grŵp Tystiolaeth a Chyngori Cymru ar Iechyd Planhigion Cymru

Dynodwyd blynyddoedd 2020/21 fel Blwyddyn Ryngwladol Iechyd Planhigion. Cynhaliodd Tyfu Cymru Gynhadledd Iechyd Planhigion Cymru, a dynnodd sylw at bwysigrwydd iechyd planhigion ym maes bwyd, gerddi, coedwigoedd a chynefinoedd naturiol a'r bygythiadau i fioddioigelwch. Mae angen i strategaethau Cymru ar gyfer iechyd planhigion arwain y byd yn un ffordd ag y mae Cymru wedi arwain ym maes datblygu cynaliadwy.

Felly, yn dilyn y gynhadledd, sefydlwyd Grŵp Tystiolaeth a Chynghori Cymru ar Iechyd Planhigion, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru ac APHA, hyrwyddo trafodaethau a rhannu gwybodaeth rhwng y rhai sydd â diddordeb mewn garddwriaeth fasnachol. Mae'n trafod materion sy'n dod i'r amlwg neu sy'n cael eu datblygu ym maes iechyd planhigion, gan gasglu tystiolaeth a llywio polisïau.

Mae'r Grŵp yn cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, APHA, CNC, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ADAS, RHS, HTA, ConFor, Prifysgolion Aberystwyth a Bangor, a chynrychiolwyr tyfwyr, i gyd yn rhoi mewnbwn hanfodol i waith y Grŵp. Tyfu Cymru sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth a chaiff y Grŵp ei gadeirio gan Dr David Skydmore.

Mae'r Grŵp yn edrych ymlaen at weithio gyda Rhwydwaith Safleoedd Sentinel wrth sganio'r gorwel, canfod plâu a chlefydau a chyfrannu at ddatblygu polisïau.



# Llyfryn Caru Gwenyn newydd: Plannu ar gyfer Pryfed Peillio

Mae gan bob un ohonon ni rôl bwysig i'w chwarae wrth warchod pryfed peillio. Fel rhan o'r Cynllun Caru Gwenyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llyfryn newydd [Plannu ar gyfer Pryfed Peillio](#). Ni waeth pa fath o le sydd gennych ar gyfer tyfu, mae'r llyfryn yn llawn syniadau ac awgrymiadau gwych. Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu set o dri phoster i groesawu pryfed peillio i'ch [balconi a'ch iard](#), [eich cymuned](#) a'ch [gardd](#).

Mae tîm gwyddonol Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi darparu cyngor arbenigol wrth nodi rhai o'r planhigion gorau ar gyfer pryfed peillio, i roi arweiniad i'r rhai sy'n tyfu planhigion ar adegau gwahanol y flwyddyn. Mae aelodau eraill o Dasglu Peillwyr Cymru wedi darparu cyngor ar sut y gall torri eich glaswellt yn llai aml helpu pryfed peillio, planhigion sy'n addas ar gyfer pryfed peillio a sut i wneud planhigion newydd drwy hadu, torri, rhannu a haenu.

Nod y llyfryn Plannu ar gyfer Pryfed Peillio a gafodd ei gyhoeddi yn ddiweddar yw helpu pobl gyda thema gyntaf Caru Gwenyn (Bwyd – darparu ffynonellau bwyd sy'n addas ar gyfer pryfed peillio) ond mae hefyd yn trafod yr ail thema (Llety pum seren – darparu manau i bryfed peillio fyw ynddyn nhw) mewn perthynas â darparu lloches ar gyfer pryfed peillio.

Cewch ddysgu mwy am y cynllun Caru Gwenyn a lawrlwytho llyfryn neu boster yma <https://www.biodiversitywales.org.uk/Bee-Friendly>

I gael copi caled e-bostiwrch: [NatureConservation@gov.wales](mailto:NatureConservation@gov.wales)

## Digwyddiadau sydd ar y gweill

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda chydweithwyr o Forest Research, APHA, CNC a'r Safleoedd Sentinel i drefnu cyfres o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ac iechyd planhigion yn y flwyddyn newydd.

Hoffen ni hefyd gynnal gweithdai rhithwir yn chwarterol lle gall eich rhwydweithiau ofyn cwestiynau i arbenigwyr ar blâu a chlefydau penodol neu ar ymgyrchoedd a rhaglenni penodol. Caiff gwybodaeth bellach am y rhain eu hanfon atoch yn y flwyddyn newydd.

Rydyn ni hefyd yn cynllunio cyfarfod blynyddol ar gyfer aelodau Safleoedd Sentinel, yn debyg i'r cyfarfod rhithwir yn 2021, lle bydd cyfleoedd i drafod y rhwydwaith â'n gilydd, rhannu'r arferion gorau a gweithio gyda'n gilydd.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu syniadau ar gyfer cynnwys y gweithdai hyn neu ddigwyddiadau eraill, e-bostiwrch [Daniel.Wood001@llyw.cymru](mailto:Daniel.Wood001@llyw.cymru).